# FFERMIO DŴR

Mae llawer o bobl yn ystyried ffermio dŵr neu ffermio pysgod yn ddull caredig, heb fod yn greulon, o gael bwyd. Mae'n fath o ffermio sydd wedi bodoli ers canrifoedd yn Asia a rhannau o Affrica. Mae'r ffermydd diweddaraf, fodd bynnag, yn fwy o ran maint ac yn fwy dwys. Maen nhw fel ffatrïoedd sydd ar dir.

Yn hytrach na chael eu dal yn y gwyllt, mae pysgod môr fel ysbinbys y môr, pysgod cragen fel corgimychiaid a physgod dŵr croyw fel brithyll a thilapia yn cael eu magu mewn corlannau sy'n arnofio ac wedi cael eu hangori wrth wely'r môr neu'r afon. Caiff y pysgod eu magu yn y pysgodfeydd a'u bwydo â bwyd arbennig hyd nes iddynt dyfu i'w llawn maint a chael eu lladd i'w gwerthu.

Mae ffermio dŵr bellach yn cynhyrchu tua chwarter pysgod y byd.

Cred rhai pobl bod ffermio pysgod yn greulon. Gan fod eogiaid yn gigysyddion sy'n bwyta pysgod eraill, pan fônt mewn caethiwed rhaid eu bwydo â bwyd sy'n cynnwys pysgod. Felly, mae'n rhaid eu bwydo â bwyd sy'n cynnwys pysgod. Mae'n rhaid cael hyd at 5 cilogram o bysgod gwyllt i fwydo 1 cilogram o bysgod mewn caethiwed. Dydy hynny ddim yn gwneud llawer o synnwyr i mi.

Mae'r bwyd sydd ddim yn cael ei fwyta, carthion y pysgod a'r cemegion a ddefnyddir i drin y pysgod yn cynyrchu llawer o lygredd yn y corlannau. Gall y llygredd effeithio ar anifeiliaid eraill mwy sensitif. Y pryder mwyaf yw bod gormod o bysgod yn y corlannau ac nad yw'r pysgod yn gallu symud fel y byddent mewn dŵr agored. Mae'r broblem ar ei gwaethaf adeg bwydo pan fydd yr holl bysgod yn tyrru at y bwyd. Bryd hynny cânt eu hanafu a hyd yn oed eu lladd.



**FFAITH**

Ffermio pysgod yw un o'r diwydiannau amaethyddol sy'n tyfu gyflymaf yn y byd. Mae un o bob pump pysgodyn mae person yn ei fwyta yn dod o fferm bysgod.